Papur 2

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref 11/10/2022

John Griffiths
Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
John.griffiths@senedd.cymru

cc. David Rees AS, Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
seneddllc@senedd.cymru

11 Hydref 2022

Annwyl John,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu fy mod heddiw wedi cyhoeddi Papur Gwyn sy'n nodi agenda hirdymor uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio proses gweinyddu etholiadau. Dyma ddolen at y ddogfen: https://llyw.cymru/papur-gwyn-ar-weinyddu-diwygio-etholiadol.

Yn ystod tymor y Senedd hon, bydd yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i leihau'r diffyg democrataidd ym maes llywodraeth leol. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau o ran diwygio'r Senedd drwy ddarparu ar gyfer moderneiddio'r ffordd y bydd etholiadau diwygiedig y Senedd yn 2026 yn cael eu gweinyddu.

Mae'r papur yn cynnwys cyfuniad o gynigion anneddfwriaethol i helpu i ymgysylltu mewn etholiadau a sicrhau bod sefyll mewn etholiadau'n fwy diogel ac yn fwy syml, cynigion deddfwriaethol i foderneiddio proses gweinyddu etholiadau, gwella'r modd y cynhelir adolygiadau etholiadol a chymunedol ar gyfer llywodraeth leol a chydgrynhoi cyfraith etholiadol, a chynigion tymor hwy ar gyfer diwygio etholiadol i gefnogi democratiaeth Cymru.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Papur Gwyn mae fy swyddogion ar gael i ddarparu briff technegol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.